



Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

Polisi Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith

Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol: 28 Mawrth 2019

Llofnod y Cadeirydd: _____

Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol: 26 Mawrth 2020

Llofnod y Cadeirydd: _____

Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol:

Llofnod y Cadeirydd: _____

POLISI GYRFAOEDD A'R BYD GWAITH

Mae polisi Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith (GBG) yr ysgol wedi ei seilio ar y ddogfen a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru 'Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru'. Mae wedi ei addasu/diweddaru i gymryd ystyriaeth o ddogfen Llywodraeth Cymru - 'Uchelgeisiau I'r dyfodol; Datblygu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru' a gyhoeddwyd yn Medi 2010.

Daeth y fframwaith yn weithredol ar y 1af o Awst 2008 ac mae'r ysgol wedi cyflawni dwy awdit llawn o'i gweithgareddau GBG yn erbyn gofynion y Fframwaith. Roedd yr awdit diweddara' yn Medi 2011 a ddigwyddodd yn ystod y broses o'r ysgol yn ennill yr achrediad Marc Ansawdd Gyrfa Cymru.

Sail Resymegol

Mae angen i bobl ifanc gael y sgiliau i gymryd eu lle mewn byd gwaith sy'n newid yn gyflym yn yr economi fyd-eang. Mae GBG yn ymwneud â'r berthynas rhwng pobl ifanc, eu dysgu a byd gwaith sy'n ei galluogi i sylweddoli gwerth addysg, cymwysterau a sgiliau. Mae GBG yn rhan o'r Cwricwlwm sylfaenol ar gyfer pob person ifanc 11 i 16 oed ac mae hefyd yn rhan o ofynion Craidd Dysgu'r Llwybrau Dysgu 14 -19 oed.

Nodau Allweddol

Sicrhau bod pobl ifanc yn gallu

- Datblygu'r agweddau a'r gwerthoedd sydd eu hangen ar gyfer cyflogadwyedd a dysgu gydol oes.
- Rheoli eu llwybrau dysgu unigol a gwneud dewisiadau gyrfa effeithiol.
- Datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr
- Bod yn entrepreneuraidd
- Bod a'r cymhelliad i wynebu heriau, dewisiadau a chyfrifoldebau bywyd fel oedolyn.

Ymrwymiad

Rydym fel ysgol yn ymroddedig i

- Ddarparu rhaglen gynlluniedig, a wahaniaethwyd yn briodol ar gyfer ein holl ddysgwyr.
- Sicrhau bod cyngor a chyfarwyddyd unigol ar gael ynglŷn â dewisiadau a datblygiad.
- Rhoi cyfle i bob disgybl greu Ffeil Gynnydd gynhwysfawr trwy'r ddefnydd o www.gyrfacymru.com
- I sicrhau dulliau darparu sy'n hybu cyfle cyfartal a chynhwysiad.
- Cynnig mewnwelediad i'r Byd Gwaith trwy wythnosau Profiad Gwaith.
- Sicrhau bod cynlluniau gwaith pynciau yn nodi eu cyfraniad i addysg GBG ein disgyblion.
- Casglu ac ystyried barn y disgyblion ei hun am ddarpariaeth GBG yr ysgol.
- Cytundeb blynyddol a Gyrfa Cymru sy'n nodi'r cyfraniadau bydd pob partner yn eu gwneud.
- Cysylltiadau egniol a busnesau a diwydiant lleol yn ogystal â'r Cyngor Sir.
- Defnyddio'r fframwaith genedlaethol a'i chanllawiau cysylltiedig fel sail ar gyfer ein rhaglenni dysgu.

Polisiau Cysylltiedig

Mae GBG yn gysylltiedig â pholisiau eraill ac yn eu cefnogi, gan gynnwys Llwybrau Dysgu 14-19, addysgu a dysgu, asesu, ABCh, cyfle cyfartal, Iechyd a Diogelwch ac anghenion addysgol ychwanegol. Mae polisi GBG hefyd yn rhyngweithio'n agos gyda Chynllun Datblygu'r Ysgol.

Y Weithdrefn Adolygu

Cynhelir cyfarfod blynyddol rhwng y Cyd-gysylltydd GBG a'r Pennaeth i adolygu'r flwyddyn fel rhan o bolisi Rheoli Perfformiad yr ysgol. Fe fydd canlyniadau'r cyfarfod hyn yn sail ar gyfer Cynllun Datblygu'r Adran am y flwyddyn nesaf ac yn arferol fe fydd yn cael ei gynnal cyn cyfarfod adnewyddu'r cytundeb partneriaeth â Gyrfa Cymru.

Modelau Darpariaeth

Cyflwynir GBG trwy amrywiaeth o ffyrdd. Defnyddir gwersi tiwtorial ac ABCH yn ogystal â chynnal digwyddiadau neu brosiectau untro. Fe fanteisir ar arbenigwyr neu sefydliadau i drafod yn fanwl un maes o'r economi yn ogystal ag ymweliadau gan entrepreneuriaid lleol. Wrth I Gyrfa Cymru lleihau ei rôl yng ngweithgareddau'r ysgol mae sefydliadau/asiantaethau fel Dynamo, BaseCymru a STEMCymru yn chwarae rôl mwy blaenllaw yn nhrefniadau'r ysgol. Mae pynciau hefyd yn cynyddu yn ei ymwybyddiaeth o'i gallu i hyrwyddo GBG trwy gyfrwng ei gwersi arferol. Defnyddir y broblem o 'ddod o hyd i leoliad Brofiad Gwaith sy'n berthnasol i yrfa' fel modd i ennill cymhwyster Sgiliau Allweddol Datrys Problemau i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4. Hefyd yng Nghyfnod Allweddol 5 mae'r disgyblion yn ystyried ei syniadau gyrfa gan archwilio cyfleoedd Byd Gwaith, Prifysgol a Blwyddyn Gap fel modd o ennill cymhwyster Sgiliau Allweddol.

Ceir amlinelliad o'r rhaglen GBG ar draws y Cyfnodau Allweddol isod:

Cyfnod Allweddol 3	Tiwtorial ABCh ar 'Ddewisiadau' ac ar 'Y Gyfraith yn ymwneud â phobl ifanc yn y Byd Gwaith.' Rhoglen ABCh- Gwneud penderfyniadau Diwrnod Opsiynau – Siaradwyr Prosiect Dynamo/STEM Ymweliadau a sefydliadau megis Coleg Gelli Aur (Llwybrau Dysgu)
Cyfnod Allweddol 4	Wythnos Profiad Gwaith yn ogystal â dau ddiwrnod yn paratoi ac yn gwerthuso'r wythnos. (Diwrnodau yn cynnwys gweithgareddau ar Iechyd a Diogelwch, Gyrfa Cymru Ar Lein, Cyflogau yn y D.U. STEM, Siaradwyr Dynamo) Rhoglen ABCh yn canolbwyntio ar baratoi Ffeil Cynnydd ar www.gyrfacymru.com Ffug gyfweiliadau. Cynhadledd Gyrfau ym Mharc y Sgarlets Profiad Gwaith Parhaus ar gyfer criw o ddisgyblion A.D.Y. Amrywiaeth o Ddosbarthiadau Meistr gan gwmnïau a sefydliadau: Heddlu, Brigâd Dan, Llysoedd
Cyfnod Allweddol 5	Ffug Gyfweiliadau. Profiad Gwaith. Siaradwyr Prosiect Dynamo Gweithgaredd a drefnir gan Gyngor Sir Gaerfyrddin yn ymwneud a sut i wario arian y Sir; 'Diwrnod Mewnwelediad' Rhoglen ABCh; Blwyddyn Gap, Byd Gwaith, Prifysgol.

Archwiliad GBG o'r datganiadau ystod: Ôl-16

Cod gwirio: 1 = Wedi'i gyflawni, 2 = Angen mân newidiadau, 3 = Angen newidiadau mawr, 4 = Heb ei sefydlu eto

Datganiad ystod	Gweithgareddau ✓ ticiwch os ydyn nhw'n berthnasol i'r garfan gyfan	Staff	Sgiliau GBG	Sgiliau eraill		Camau sydd angen eu cymryd
Cyflawniad personol						
1. Adolygu eu cyflawniadau a'u cynlluniau gwaith/gyrfa/astudio.	Cwrs Anwytho Bl 12 – pob disgybl yn adolygu eu perfformiad TGAU gyda'i Tiwtor Personol. Hefyd mae trafodaeth yn cael ei chynnal am ddewisiadau pynciol 0l-16. Cyfweiliadau gyda'r Swyddog Gyrfau.	Tiwtoriaid Dosbarth a Swyddog Gyrfau.	9,11,13	Cyfathrebu GDPH	1	Sicrhau cysondeb o arbenigedd ymysg y Tiwtoriaid.
2. Parhau i ddatblygu curriculum vitae (CV) parhaus yn seiliedig ar eu cyflawniadau, eu profiadau, eu diddordebau a'u sgiliau er mwyn cryfhau eu cyflogadwyedd.	Gwersi Tiwtorial	Tiwtoriaid Blwyddyn 12/13	4,6,9,10	Cyfathrebu TGCH	2	Ffurflenni UCAS yw ffocws y mwyafrif o ddisgyblion ym Mlwyddyn 13. Hyrwyddo'r defnydd o Gyrfau Cymru Ar-Lein yn is yn yr ysgol er mwyn sefydlogi yn meddyliau'r disgyblion o CV parhaus.

Ceisio gwybodaeth						
3. Ymchwilio a gwerthuso ystod o wybodaeth am yrfaeodd a'r farchnad lafur yng Nghymru.	Diwrnod 'Cipolwg' Cyngor Sir Gaerfyrddin yn rhoi syniad o wariant/cyllid o fewn Sir Gaerfyrddin. Cyflwyniad GJO yn ystod y cwrs Anwytho. Llyfrgell Gyrfaoedd Safle we Gyrfau yr ysgol. Diwrnodau Agored gan golegau a phrifysgolion	GJO/ Penaethiaid y 6ed Dosbarth	3,4,5,6	Ymchwilio TGCH	2	Gwybodaeth am Sir Gaerfyrddin
4. Archwilio sut y gallai cyfleoedd ym Mhrydain, Ewrop a gweddill y byd effeithio ar eu syniadau ar gyfer gyrfa.	Safle We Gyrfau yr ysgol Bas Data Exodus Broses UCAS	GJO	3,5,6,7	Ymchwilio TGCh	3	Rol i CILT Cymru/Adran Ieithnodd Modern?
5. Ehangu eu gwybodaeth am gyfleoedd busnes a hunangyflogaeth er mwyn cyfoethogi eu gorwelion gyrfa.	Profiad Gwaith Gwaith Gwirfoddol Diwrnod Entrepreneuriaeth Bl 12 'Wine Bar' Ymweliadau gan gyflogwyr yn ystod Sesiwn ABCh Dynamo a gwers tiwtorial Byd Gwaith.	Pennaeth Blwyddyn GJO	1, 8, 9, 13, 14, 15,	Gweithio Gyda Eraill Datrys Problemau Cyfathrebu	1	Angen ffurfioli perthynas gyda cyflogwyr lleol.
6. Trafod effaith tueddiadau cyfredol mewn patrymau gwaith ar eu cynlluniau o ran gyrfa.	Cyfweliadau gyda'r Swyddog Gyrfau Llyfrgell Gyrfau Cyflwyniad GJO – Cwrs Anwytho.	GJO	2, 3, 4, 5	Cyfathrebu	2	Angen arbenigedd i gynnig gwybodaeth a dadansoddiad cyfredol o'r sefyllfa yn enwedig os am drafodaeth o'r sefyllfa cenedlaethol.

Deall y byd gwaith						
7. Trafod y manteision y gall amrywiaeth eu cyflwyno i'r gweithle a'r anafanteision y gellir eu creu drwy stereoteipio.	Gwaith elusennol. Tiworial ABCh ar Gyfleoedd Cyfartal. Profiad Gwaith	TH/GJO	1,7,13	Cyfathrebu Gweithio Gyda Eraill	2	Beth yw cyfraniad y Cwricwlwm pynciol i'r agwedd hyn? Cynhaliwyd awdit pynciol yn 2010 – angen un fwy ddiweddar.
8. Ymroi i weithgareddau sy'n annog ymagwedd entrepreneuriaidd at waith a chreu cyfoeth.	Gwaith Gwirfoddol. Trefniadau Hwyl yr Haf lle mae'r disgyblion yn gyfrifol am greu a rhedeg rhyw stondin farchnad i gyfrannu at Ffair Haf ar gyfer disgyblion ysgol gynradd. Siwrne i Fenter (Grwp Bac).	Pennaeth Blwyddyn	1,2,4,7,13,15	Cyfathrebu Gweithio Gyda Eraill Datrys Problemau	1	
9. Deall eu cyfrifoldebau a'u hawliau fel gweithwyr cyflog a gwybod sut i ddilyn arferion gwaith diogel.	Profiad Gwaith ym Mlwyddyn 12 Gwaith gwirfoddol	GJO/Cyflogwyr Profiad Gwaith	1,9,12,13	Cyfathrebu Gweithio Gyda Eraill Datrys Problemau	2	Cadarnhau'r angen am Aseiad Risg wrth gyrraedd y lleoliad profiad gwaith.
10. Defnyddio profiadau sy'n canolbwyntio ar waith i gael gwell dealltwriaeth o'r sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen ar gyflogwyr ac unrhyw oblygiadau i'w cynlluniau gyrfa/gwaith.	Profiad Gwaith ym Mlwyddyn 12 Ymweliadau gan gyflogwyr Gwaith gwirfoddol Gwaith elusennol Ffug-Gyfweliadau Bl 13 Diwrnodau agored prifysgolion. Diwrnodau Gyrfau Penodol e,e, Nyrsio	GJO/ Ymgynghorydd Gyrfa	1,2,7,8,14,15	Cyfathrebu Gweithio Gyda Eraill Datrys Problemau	1	Cadarnhau y broses o fynd ar brofiad gwaith a myfyrio arno er mwyn ystyried pa sgiliau a ddatblygwyd, pa rhinweddau dymunol a dystiwyd yn y byd gwaith?

Arweiniad						
11. Cael gafael ar a dadansoddi canllawiau realistig, diduedd ar lwybrau addysg/gyrfa/gwaith.	Swyddog Gyrfaeu – cyfweiliad gan pob disgybl. Gyrfa Cymru Ar Lein Ymweliadau gan gyflogwyr Ffug gyfweiliadau (Tachwedd BI 13) Llyfrgell Gyrfaeu	GJO	2,3,4,6,8,10	Cyfathrebu TGCh	2	Hyrwyddo defnydd o'r Llyfrgell Gyrfaeu a'r Safle we. A oes angen ymweliadau mwy arbenigol?
12. Ystyried goblygiadau eu syniadau gyrfa o ran eu sefyllfa ariannol a'u ffordd o fyw.	Cyflwyniad gan 'Cyllid Myfyrwyr Cymru' yn trafod ffioedd prifysgol. Gwres ABCh ar Flwyddyn Gap a'r goblygiadau ariannol.	GJO Pennaeth Blwyddyn	4, 8, 11.	Cyfathrebu Rhif	1	Diweddarau'r ddarpariaeth ar sefyllfa chyllid ym mrefysgolion 2012.
Gwneud a gweithredu penderfyniadau						
13. Deall, dadansoddi a gwneud penderfyniadau am lwybrau unigol mewn addysg, hyfforddiant a gwaith.	Cyfweiliad Tiwtor Dosbarth ar ddechrau Blwyddyn 12 am ei ddewisiadau. Cyfweiliadau rheolaidd trwy'r flwyddyn i adolygu'r llwybr dysgu.	Tiwtoriaid Dosbarth/ Pennaeth Blwyddyn	2, 7, 9, 11	Cyfathrebu Datrys Problemau GDPH	1	
14. Gallu egluro a chyfiawnhau eu dewisiadau i'w cyfoedion ac i oedolion priodol.	Cyfweiliadau Tiwtor. Cyfweiliadau unigol gyda'r Swyddog Gyrfaeu. Ffug-Gyfweiliadau gan Clwb Rotari Caerfyrddin.	Tiwtoriaid Dosbarth/ Pennaeth Blwyddyn	9, 10.	Cyfathrebu Gweithio Gyda Eraill	2	Annog mwy o ddisgyblion i gael cyfweiliadau
15. Adolygu, cyfosod a chyflwyno gwybodaeth amdanynt eu hunain o ran dysgu a gwaith er mwyn cyd-drafod cynllun gyrfaeu.	Trafod ac adolygu eu canlyniadau yn rheolaidd gyda Tiwtoriaid Dosbarth. Ffurflenni UCAS	Tiwtoriaid Dosbarth	9, 10,12.	Cyfathrebu TGCh Gweithio Gyda Eraill	2	Beth yw'r % sydd ddim yn mynd i Brifysgol ac felly ddim yn llenwi ffurflen UCAS? Angen sesiynau CV i'r disgyblion hyn ?
16. Hyrwyddo hunanddelwedd gadarnhaol mewn ystod o sefyllfaeu ffurfiol gan gynnwys ceisiadau a mynychu cyfweiliadau.	Profiad Gwaith BI 12. Cyfweiliadau Rotari Gwaith gwirfoddol	Pennaeth Blwyddyn/ GJO	1,2,6,9,14	Cyfathrebu GDPH Datrys Problemau Gweithio Gyda Eraill	1	

Archwiliad GBG o'r datganiadau ystod: Cyfnod Allweddol 4

Cod gwirio: 1 = Wedi'i gyflawni, 2 = Angen mân newidiadau, 3 = Angen newidiadau mawr, 4 = Heb ei sefydlu eto

Datganiad ystod	Gweithgareddau ✓ ticiwch os ydyn nhw'n berthnasol i'r garfan gyfan	Staff	Sgiliau GBG	Sgiliau eraill	Gwirio	Camau sydd angen eu cymryd
Cyflawniad personol						
1. Datblygu curriculum vitae (CV) yn seiliedig ar eu cyflawniadau, eu galluoedd, eu diddordebau a'u sgiliau.	C.V. yn cael ei greu a'i ddatblygu ym Mlwyddyn 10 ac 11 yn ystod sesiynau ABCH. Mae'r fersiwn terfynol yn rhan o Ffeil Cynnydd y disgybl.	Tiwtoriaid Dosbarth	1,4, 9, 10	Cyfathrebu	2	Hyrwyddo'r defnydd o Gyrfau Cymru Ar-Lein fel y fframwaith ar gyfer y ddogfen.
Ceisio gwybodaeth						
2. Defnyddio amrywiaeth o ffynonellau i ganfod Gwybodaeth am eu syniadau gyrfa, gan wahaniaethu rhwng gwybodaeth a deunydd hyrwyddo.	- Cynhadledd Gyrfau ym Mlwyddyn 11 lle mae'r disgyblion yn cwrdd ag amrywiaeth o gyflogwyr. (Parc y Sgarlets yn 2011) - Cynhadledd Sgiliau Cymru (Medi 2010) - Safwe Gyrfaoedd yr ysgol a'r Llyfrgell Gyrfau	John Selby GJO	1, 3, 4, 5, 6,	Ymchwilio Meddwl TGCH	1	Sicrhau fod y darpariaeth ar gael yn gyson yn flynyddol. Modd o fesur defnydd y disgyblion o adnoddau GBG yr ysgol.
3. Archwilio cyfleoedd a thueddiadau cyflogaeth a dysgu yn lleol ac ymhellach i ffwrdd.	Y broses o drefnu Profiad Gwaith yn cael ei gysylltu gydag ennill achrediad Sgiliau Allweddol Datrys Problemau Lefel 2. Disgyblion yn ymchwilio mewn i opsiynau gwahanol o gyflogaeth fel rhan o'r broses.	GJO/EUJ	2,3,5,9,	TGCH GDPH Datrys Problemau	2	'Ymhellach i ffwrdd?' Disgyblion yn canolbwyntio ar y cyd-destun lleol gan amlaf.
Deall y byd gwaith						
4. Archwilio goblygiadau stereoteipio mewn cyflogaeth	Cynhadledd Byd Gwaith – gweithgareddau yn ymwneud a	Gyrfa Cymru	2,3,13	Meddwl Cyfathrebu	3	Angen ehangu y ddarpariaeth yn ymwneud a chreu agwedd

a hyfforddiant, gan gydnabod manteision agwedd gadarnhaol tuag at wahaniaeth ac amrywiaeth.	swyddi benwywaidd / gwrywaidd.					gadarnhaol tuag at wahaniaeth ac amrywiaeth.
5. Archwilio rôl menter/creu cyfoeth a datblygu eu gallu eu hunain i weithredu mewn ffyrdd entrepreneuriaidd.	Prosiect Dynamo Mentrau Celtaidd (Dosbarth Busnes yn unig)	GJO/RhB	1,3,4,5,6,8,1215	Cyfathrebu TGCH Meddwl Datrys Problemau	2	Dibynnol ar opsiynau. Nid yw'r digwyddiad ar gael i bob disgybl. Modd ymestyn i'r flwyddyn gyfan?
6. Adnabod eu cyfrifoldebau a'u hawliau fel gweithwyr cyflog a dysgu sut i ddilyn arferion gwaith diogel.	- Sesiynau Iechyd a Diogelwch yn ysfod Cynhadledd Byd Gwaith ym Mlwyddyn 10. - Profiad Gwaith i Flwyddyn 10 gyfan lle maent yn derbyn asesiad risg. - Ffug-gyfweliadau Blwyddyn 11	Gyrfa Cymru GJO GJO	1,2,7,8,13, 14	Cyfathrebu GDPH	1	Parhau'r pwyslais ar asesiadau risg a rol allweddol Iechyd a Diogelwch yn y broses o Brofiad Gwaith.
7. Defnyddio profiadau sy'n canolbwyntio ar waith i ddeall yn well pa sgiliau a nodweddion personol y mae c cyflogwyr eu heisiau.	Profiad Gwaith a'r cyfle i baratoi cyn, a myfyrio ar ol yr wythnos trwy gyfrwng dau ddiwrnod llawn yn yr ysgol.	GJO/Gyrfa Cymru	1, 2, 11. 14, 15	Cyfathrebu Meddwl TGCH	1	Rydym yn creu y cyd-destun lle mae'r fath ddealltwriaeth yn debygol iawn o ddigwydd trwy gyfrwng Profiad Gwaith a'r ddau ddiwrnod o Gynadleddau Profiad Gwaith.
Arweiniad						
8. Cael cyfarwyddyd realistig, diduedd ynghylch dysgu, gyrfaoedd a materion cysylltiedig â gwaith.	Cyfweliad gyda'r Swyddog Gyrfau ym Mlwyddyn 10/11 Gyrfa Cymru Ar Lein Llyfrgell Gyrfau	John Selby Tiwtoriaid Dosbarth	2,3,4,5,6,7	Cyfathrebu Meddwl TGCh GDPH	2	Sicrhau ymwybyddiaeth a mynediad i'r ffactorau a nodir.

	Safle We Gyrfaoedd yr ysgol. Cynhadledd Gyrfau. Ffug-gyfweliadau	GJO				Mwy o rol i fusnesau lleol, creu EBP?
9. Deall y rhagolygon a'r patrymau dilyniant yn y swyddi sydd o ddiddordeb iddynt.	- Siaradwyr gwadd yn ymwneud a meysydd arbenigol, e.e. CITB, Dosbarth Meistr yr Heddlu, Brigad Dàn, Diwydiannau'r Tir, Y Gyfraith.	GJO/Gyrfa Cymru	4, 5, 6, 11	Ymchwilio TGCh GDPH	2	Modd ehangu ar y siaradwyr gwadd i gynnwys fwy o ddiwydiannau/sectorau o'r economi. Parhau i gynnig / hyrwyddo y diwrnodau meistr.
10. Archwilio eu syniadau gyrfa a'r effeithiau posibl ar eu bywydau.	Safwe Gyrfaoedd yr ysgol. Llyfrgell Gyrfaoedd. Ymgynghorydd Gyrfau	GJO	2,3,4,5,6,7	Ymchwilio GDPH TGCh	2	Modd iddynt ymchwilio i'w syniadau gyrfa trwy adnoddau'r ysgol. Ffocws ar 'effaith ar eu bywydau?' Angen gwers diwtorial ar bwysigrwydd y Byd Gwaith i unigolyn.
11. Nodi unrhyw rwystrau rhag dyheadau'r dyfodol a meddwl yn ofalus ynglŷn â sut y gallent eu goresgyn.	Cyfweliadau Tiwtor Dosbarth. Dosbarthiadau Meistr yn rhoi gwybodaeth /cyngor arbenigol ar feysydd penodol. Disgyblion hynny sydd yn gadael addysg yn CA4 yn cael cyfweliadau a ffocws pendant y Swyddog Gyrfau yn gynnar iawn ym Mlwyddyn 11.	GJO/Swyddog Gyrfaoedd	3, 8, 11, 13,	Datrys Problemau Meddwl	2	Rol i'r tiwtoriaid Cyfnod Allweddol 4 i gynnal cyfweliad ar sail cynlluniau'r dyfodol gyda'r disgyblion?

Gwneud a gweithredu penderfyniadau						
12. Nodi, deall a gwneud penderfyniadau am lwybrau unigol mewn addysg, hyfforddiant a gwaith.	- Opsiynau Ôl – 16 – sesiynau gyda ZW (PC) a Phennaeth y 6ed Dosbarth	GJO/Pennaethiaid Blwyddyn	1,3,4,5,11	Gweithio Gyda Eraill GDPH	2	Sicrhau fod llwybrau gwahanol yn cael eu hyrwyddo yn y ffordd fwyaf effeithiol.

	- Amrywiaeth o gyrsiau Galwedigaethol yng Nghyfnod Allweddol 4 a 5					
13. Gallu egluro eu dewisiadau yn eithaf manwl i'w cyfoedion ac i oedolion priodol.	- Ffug-gyfweliadau ym Mlwyddyn 11. Cyfweliad unigol gyda'r Swyddog Gyrfau. - Noson Rhieni Blwyddyn 10 ac 11.	Swyddog Gyrfaoedd	9,10	Cyfathrebu	1	Angen sicrhau bod pob disgybl yn cael adborth o'r cyfweliad.
14. Adolygu gwybodaeth gyfredol amdanynt eu hunain o ran dysgu a gwaith er mwyn cyd drafod cynllun gyrfa.	- Cyfweliadau Tiwtor Dosbarth lle maent yn nodi targedau'r flwyddyn. - Cyfweliad gyda'r Swyddog Gyrfaoedd.	Tiwtoriaid Dosbarth John Selby	1,2,7,9,11	Cyfathrebu Meddwl GDPH	1	Rhaid sicrhau bod cyfweliadau Tiwtor Dosbarth yn cael eu cyflawni'n ystyrlon gyda'r syniad o yrfa a dewisiadau ol-16 yn amlwg iawn yn y sgwrs yna. Ail-edrych ar y taflenni cyfweliadau tiwtor.
15. Hyrwyddo hunanddelwedd gadarnhaol wrth wneud ceisiadau a mynychu cyfweliadau.	- Ffug-gyfweliadau ym Mlwyddyn 11 gyda chyflogwyr allanol. - Profiad Gwaith parhaus gan griw bychan o ddisgyblion ym Mlwyddyn 10.	GJO/Pennaeth Blwyddyn	10,13,15	Cyfathrebu GDPH	1	Gwella'r broses adborth o'r cyfweliadau.

Archwiliad GBG o'r datganiadau ystod: Cyfnod Allweddol 3

Cod gwirio: 1 = Wedi'i gyflawni, 2 = Angen mân newidiadau, 3 = Angen newidiadau mawr, 4 = Heb ei sefydlu eto

Datganiad ystod	Gweithgareddau ✓ ticiwch os ydyn nhw'n berthnasol i'r garfan gyfan	Staff	Sgiliau GBG	Sgiliau eraill	Gwirio	Camau sydd angen eu cymryd
Cyflawniad personol						
1. Disgrifio eu galluoedd, eu diddordebau a'u sgiliau.	Cyfweliadau Tiwtor Dosbarth ym Mlwyddyn 7,8 a 9. Portffolio unigol gan bob disgybl.	Tiwtor Dosbarth	1,4,9,10,14	Cyfathrebu Gwellu eich Dysgu a'ch Perfformiad eich Hun (GDPH)	1	
2. Rhestru eu cyflawniadau yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol.	Llyfryn tiwtor ABCh yn ogystal â thudalen benodedig yn ei hadroddiadau ysgol yn flynyddol.	Athro/Athrawes ABCH	4,9,10	Cyfathrebu	1	Bod y taflenni yn gyfoes ac yn cael eu haddasu'n rheolaidd.
Ceisio gwybodaeth						
3. Defnyddio amrywiaeth o ffynonellau i chwilio am wybodaeth am ystod o gyfleoedd gwaith a dysgu.	Rhaglen Skillcheck ym Mlwyddyn 8. Llyfrgell Gyrfaoedd.	John Selby	6, 13	TGCh	1	Ymestyn mynediad i'r rhaglen 'Skillcheck.' Codi ymwybyddiaeth o'r llyfrgell Gyrfau.
4. Cael gwybod am y gwahanol fathau o waith sydd ar gael a sut mae patrymau gwaith yn newid.	Rhaglen Skillcheck Siaradwyr Dynamo ym Ml 9. Tregwaith – entrepreneuriaeth. Gwersi Dyniaethau CA3 yn rhoi sylw i economïau a swyddi gwahanol ar draws y byd.	GJO/John Selby Adran Hanes/ Daearyddiaeth	3,5,6,7.	TGCh	2	Sicrhau gwybodaeth leol, gyfredol. Gwers ABCh Blwyddyn 8 ar yr economi bydol.

Deall y byd gwaith						
5. Cydnabod a herio'r stereoteipiau sy'n cyfyngu pobl wrth ddewis eu gwaith a'u gyrfaoedd.	Gweithgaredd swyddi dynion/menywod yn rhan o wers ABCh Blwyddyn 8.	GJO/Gyrfa Cymru	1,5,7,	Gweithio Gydag Eraill Datrys Problemau Cyfathrebu Rhif	3	Angen integreiddio'r adnoddau DVD ar stereoteipio i fewn i'r rhaglen ABCh yng Nghyfnod Allweddol 3.
6. Archwilio priodoleddau entrepreneuriaid a rôl menter wrth greu cyfoeth.	Diwrnod entrepreneuriaeth ym Mlwyddyn 8. (Gem Pizza) Tregwaith (BI 9) Entrepreneuriaid lleol yn ymweld gyda'r ysgol yn ystod diwrnod opsiynau BI 9.	Gyrfa Cymru GJO i drefnu	1,2,4,8, 12,13	Cyfathrebu Meddwl	1	Cynnal y ddarpariaeth a gwerthuso ei effeithiolrwydd.
7. Dysgu am y rhinweddau personol sy'n bwysig i gyflogwyr.	Siaradwyr Dynamo (BI 9)	GJO/Gyrfa Cymru	2,9,14	Cyfathrebu Datrys Problemau	2	Cyflogwyr yn cael mwy o fynediad i ddisgyblion ym Mlwyddyn 9
Arweiniad						
8. Nodi'r bobl sy'n gallu rhoi cyngor ac arweiniad gwybodus am ddewisiadau pwnc/syniadau gyrfa, a deall goblygiadau'r llwybrau posibl o'u blaenau.	Cael eu cyflwyno i John Selby ym Mlwyddyn 8. Rhaglenni cyfrifiadurol megis Skillcheck a llyfrgell Gyrfau cyfredol yn ffynonellau o wybodaeth.	John Selby GJO/Llyfrgellydd	2,3,5,6	TGCH. Meddwl	2	Tynnu fwy o sylw i 'oblygiadau'r' llwybrau posibl o'u blaenau.
9. Nodi unrhyw rwystrau rhag cyflawni cynlluniau'r dyfodol a phenderfynu sut y gellid eu goresgyn.	Gwers Tiwtorial yn ymwneud a'r Gyfraith a Phobl Ifanc	GJO/Tiwtoriaiad Blwyddyn 8	2.5.7.13.	Datrys Problemau Gweithio Gydag Eraill Cyfathrebu GDPH	3	Gwersi cyfredol ar gyfleoedd cyfartal a stereoteipio yn cael eu datblygu gan y cyd-gysylltydd GBG erbyn 2011-2012

Gwneud a gweithredu penderfyniadau						
10. Defnyddio'r hyn y maent wedi'i ddarganfod amdanynt eu hunain, dysgu a gwaith mewn penderfyniadau ynghylch llwybrau dysgu unigol Cyfnod Allweddol 4.	Diwrnod Opsiynau Blwyddyn 9.	Tiwtor ABCh Athrawon Pynciol. (Galwedigaethol neu draddodiadol)	3	GDPH Cyfathrebu	1	
11. Gallu egluro eu dewisiadau arfaethedig i'w cyfoedion ac i oedolion priodol.	Cyfweliadau Tiwtor Dosbarth	Tiwtor ABCh Pennaeth Blwyddyn 9	7,9.	Cyfathrebu Meddwl	1	Ffurfioli hyn yn ystod sesiynau ABCh. Disgyblion i esbonio eu penderfyniadau a'r rhesymeg tu ôl iddynt.